

BWRDD
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS

CWMTAF

PUBLIC
SERVICES
BOARD



**ADRODDIAD
BLYNYDDOL**

2018-19



Contents

- 1 Pwysu a mesur y flwyddyn aeth heibio
- 2 Ein hamcanion llesiant:
Cymunedau ffyniannus
- 3 Ein hamcanion llesiant:
Pobl Iach
- 4 Ein hamcanion llesiant:
Economi Gref
- 5 Ein hamcanion llesiant:
**Mynd i'r afael ag unigrwydd
a theimlo'n ynysig**
- 6 Ein Blwyddyn Gyntaf:
Sut rydym ni'n defnyddio'r 'pum ffordd o weithio'?
- 8 Symud ymlaen





Pwysu a mesur y flwyddyn aeth heibio...

Cyhoeddwyd ein Cynllun Llesiant ym mis Mai 2018. Ers hynny, rydym wedi dechrau cyflawni camau uniongyrchol ein Hamcanion Llesiant - y pethau hynny, meddech chi, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'ch bywydau; cael cymunedau ffyniannus, pobl iach, economi gref a Chwm Taf lle nad yw unrhyw un yn teimlo'n unig nac yn ynysig.

I'n y flwyddyn gyntaf, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi rhoi strwythurau a phrosesau ar waith i gyflawni gwelliannau a gwneud cynnydd mewn rhai meysydd ac wedi gwella'n ffordd o weithio gyda'n gilydd er mwyn gwneud gwahaniaeth ar y cyd - nawr ac at y dyfodol.

Wrth gyflwyno ein Cynllun, hoffem adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r Aseiad Llesiant. Mae hyn yn golygu meithrin dull seiliedig ar asedau, sy'n golygu edrych ar beth sy'n gweithio'n dda yng Nghwm Taf, beth mae pobl yn falch ohono a beth allwn ni ei wneud i gryfhau a datblygu hyn ymhellach. Mae gennym agenda ataliol gref hefyd. Rydym yn cydweithio i atal problemau rhag digwydd ac atal sefyllfaoedd rhag mynd o ddrwg i waeth. Mae cryn dipyn o'n gwaith yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Cafodd hwn ei nodi'n faes gwaith pwysig i Gwm Taf, ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y sefyllfa unigryw o ddefnyddio'i rym cyfunol i gyflwyno newid system gyfan i'n cymunedau sy'n dioddef o'r problemau enbyd hyn.

Mae'r Ddeddf yn ein herio ni i feddwl a gweithio'n wahanol. Hoffem fod yn ddewr a thorri tir newydd, a sicrhau bod cymunedau Cwm Taf wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn gyfle inni ddatlu'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn ogystal â herio'n hunain o ran faint o wahaniaeth rydym ni'n ei wneud.

Yr Athro Marcus Longley

Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Ein hamcanion llesiant:

Cymunedau ffyniannus

Fe wnaethom ddweud...

“Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.”



I gyflawni hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

Sefydlu strwythur ‘grwpiau cyflawni’ ym mhob Parth Cymunedol: y Gurnos a Rhondda Fach Uchaf.

- Mae aelodaeth o’r grwpiau hyn yn dod â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sefydliadau angori fel Fern Partnerships a Merthyr Valley Homes, ac arweinwyr cymunedol, at ei gilydd.
- Mae’r cydweithrediad hwn yn ein helpu i ddeall yn well pa wasanaethau sy’n llwyddiannus ac i nodi’r bylchau cymorth i’n cymunedau a theuluoedd.
- Mae’r prif ffocws ar atal a lleihau effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy’n rhoi’r corff a’r meddwl dan straen, ac sy’n effeithio ar y modd rydym ni’n tyfu a datblygu. Trwy fynd i’r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, credwn y gallwn helpu i dorri’r cylch negyddol o anawsterau o un genhedlaeth i’r llall sy’n bodoli yn ein cymunedau.

Dechrau datblygu rhwydwaith y gyndogaeth ym mhob ardal, gyda chymorth dau ‘gydlynnydd cymunedol’ wedi’u hariannu gan gyllid sbarduno Llywodraeth Cymru.

- Mae Ceri Samuel yn y Gurnos a Louise Clement yn Rhondda Fach Uchaf yn gweithio yn yr ardal leol a chyda’i phreswylwyr, gan helpu i ddatblygu a chryfhau rhwydweithiau presennol a gwella’r mynediad i wasanaethau. Mae hyn yn golygu, trwy’r rolau hyn, ein bod ni’n gwrandio ar leisiau lleol ac yn cynnwys pobl wrth symud ymlaen..

Cynnal 13 o ddigwyddiadau cynnwys y gymuned

- Bu sgysiau mewn digwyddiadau gyda grwpiau, trigolion a phartneriaid lleol o gymorth i siapio a datblygu’r Parthau, a nodi’r ‘lloerennau’ – adeiladau neu gyfleusterau allweddol eraill y mae’r gymuned yn eu gwerthfawrogi ac y byddwn yn ceisio cysylltu â nhw.
- Hefyd, trafodwyd sut y cafodd arian a fuddsoddwyd trwy’r bartneriaeth ar gyfer prosiectau glasu ei ddefnyddio ym mhob ardal.

Lansio dau adeilad Hyb Cymunedol

- Mae adeilad Ysgol Babanod Ferndale wedi cael ail-wynt – ‘Hwb Glynrhedynog’ - ac mae’r adeilad 3G wedi’i adnewyddu a chafwyd pleidlais gyhoeddus i’w ailenwi’n ‘Calon Las’.
- Dyma lefydd i’r gymuned gyfan eu defnyddio a chael gwybodaeth, cyngor a chymorth, yn ogystal â chynnig gwasanaethau fel darpariaeth gofal plant a chysiau gwaith.



Gweithio gyda Data Cymru i greu fframwaith gwerthuso

- Cyfle inni weld a ydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ardaloedd y Gurnos a’r Rhondda Fach Uchaf – ac ystyried rhai amcanion tymor hwy yn ein cymunedau.

Ein hamcanion llesiant:

Pobl Iach

Fe wnaethom ddweud...

“Helpu pobl i fywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.”



I gyflawni hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

Canolbwyntio ar ein dinasyddion ieuengaf a gofalu eu bod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd

- Buom yn cydweithio â phartneriaid i gasglu tystiolaeth o'r ffactorau risg ac amddiffynol ac yn adolygu'r ddarpariaeth a'r llwybrau gofal cyfredol o'r crud i 7 oed, gan gynnwys iechyd, addysg, chwarae a magu plant.
- Roedd hyn o gymorth inni gael dealltwriaeth well o ba wasanaethau sy'n gweithio'n dda, yn ogystal â'r bylchau a beth sydd angen i ni ei wneud i wella.
- Y nod yw atal plant rhag dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a magu gwydnwch ymhlith y rhai sy'n wynebu hynny.

Ymrwymo i ddatblygu 'proffil agored i niwed' ataliol yng Nghwm Taf fel y gallwn nodi a helpu teuluoedd bregus cyn iddynt gyrraedd sefyllfa argyfyngus

- Bydd meithrin gwydnwch a gweithio gyda theuluoedd agored i niwed yn y camau cynnar yn helpu i weithio trwy broblemau cyn iddyn nhw waethgu.
- Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth gwell a mwy cydlynus ledled y sector cyhoeddus, a'i gwneud hi'n haws i bobl gael yr ystod o gymorth sydd eu hangen arnynt.

Wedi dechrau tynnu diodydd â siwgr wedi'i ychwanegu, o bob lleoliad partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

- Mae hyn yn cynnwys ein holl swyddfeydd, caffis a ffreuturau, canolfannau hamdden a pheiriannau gwerthu.
- Mae'n rhan o gynllun hirdymor i fynd i'r afael ag achosion o ordewdra ac iechyd deintyddol gwael. Yng Nghwm Taf,
 - mae 29% o oedolion yn ordew a bron i 2 o bob 3 dros eu pwysau (64%).
 - mae 14.4% o blant 4 i 5 oed yn ordew – dyma'r ganran uchaf yng Nghymru.
 - mae bron i hanner y plant yn dioddef pydredd dannedd erbyn 5 oed.
- Bydd diodydd pefriog deiet, sudd ffrwythau a diodydd eraill heb siwgr ar gael o hyd.

Wedi dechrau cyflwyno'r ymgyrch 'One Small Change' ym mis Ionawr 2019.

- Mae'r ymgyrch hon yn annog pobl sy'n gweithio i wasanaethau cyhoeddus Cwm Taf i wneud un newid bach yn eu hymddygiad personol, cadw ato am 30 diwrnod, a rhannu eu profiadau ar y cyfryngau cymdeithasol wedyn trwy ddefnyddio'r hashnod #teimloynwch a #feelgreat
- Fe wnaethom gyfuno mentrau llesiant cyfredol ar draws y bartneriaeth. Mae'r sector cyhoeddus yn cyflogi cryn dipyn o bobl yn ardal Cwm Taf, felly gallai newidiadau fel gweithlu wneud byd o wahaniaeth i'n llesiant cyffredinol.



Ein hamcanion llesiant:

Economi Gref

Fe wnaethom ddweud...


“Sbarduno a hybu dyheadau a sgiliau ein pobl er mwyn bodloni cyfleoedd gyrfa’r sector cyhoeddus a phreifat.”



I gyflawni hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

Cydweithio â phartneriaid ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn datblygu adduned y gweithwyr.

- Gyda’n gilydd, rydym ni’n gwybod y gallwn wneud gwahaniaeth aruthrol i’r modd mae pobl yn gallu cael gwaith a chyfleoedd hyfforddiant yng Nghwm Taf.
- Mae’r Adduned yn cynrychioli ymrwymiad ar y cyd gan gyrrff y sector cyhoeddus i gynnal cyfleoedd gwaith, profiad gwaith a phrentisiaethau.
- Mae’r Adduned yn cynnwys rhannau craidd y gall pawb ymrwymo iddynt ar unwaith, tra bod eraill yn berthnasol i ychydig o aelodau’n unig neu’n rhywbeth y gall pawb anelu ato.
- Byddwn yn mabwysiadu a chyflwyno hyn yn yr ail flwyddyn.



Dechrau gweithio gydag ysgolion er mwyn ceisio gweld beth sydd o ddiddordeb i’n pobl ifanc, lle mae’r bylchau o ran cyfleoedd a cheisio canfod lle gall fod prinder sgiliau yn y dyfodol.

- Mae angen inni wella’n ffordd o weithio gydag ysgolion a cholegau, ond rydym wedi dechrau cymryd camau at hyn, gan ddechrau gyda’r ysgolion uwchradd sy’n gysylltiedig â’n ‘Parthau Cymunedol’.

Dysgu o’r Asesiad Llesiant; gwyddom fod pobl yn ymfalchïo yn eu bro ac am ei frolio i’r byd a’r betws! Mae twristiaeth yn faes twf i’n heconomi leol, ac mae angen inni feddwl am sut gallwn ni adeiladu ar hyn gan greu mwy o swyddi a chyfleoedd.

- Mae gwneud y gorau o’n hamgylchedd naturiol yn hanfodol i dwristiaeth yng Nghwm Taf ac mae angen inni weithio i sicrhau ein bod ni’n datblygu gwydnwch i’w fwynhau nawr ac yn y dyfodol. Mae gwell gwydnwch ar draws ein hamgylchedd naturiol yn hybu llesiant ac yn darparu cyfleoedd economaidd.
- I deall y sector yn well a’i ddatblygu’n gynaliadwy, cynhaliom ni’r arolwg cyntaf o fusnesau twristiaeth ledled holl ardal Cwm Taf. Er mwyn deall y sector yn well, aethom ati i gynnal arolwg cyntaf o fusnesau twristiaeth ledled Cwm Taf – er mwyn rhoi syniad i ni o gryfderau’r sefydliadau yn ogystal â’r anghenion sgiliau a hyfforddiant a’r meysydd y gellid eu datblygu. Cawsom adborth gan 87 o ddarparwyr a byddwn yn anelu at wella hynny tro nesaf.
- Byddwn yn defnyddio’r hyn a ddysgwyd o’r adolygiad hwn i lywio ein hail flwyddyn o waith, sef gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo gyrfaedd a chyfleoedd ym maes twristiaeth.

Ein hamcanion llesiant:

Mynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig

Fe wnaethom ddweud...

“Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd newydd i sianelu cryfderau'n cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli, i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd ac unigedd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohonynt.”

I gyflawni hyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

Er mwyn deall beth mae'n ei olygu i fod yn unig neu wedi'ch ynysu fe wnaethom adolygu pa wasanaethau sydd ar gael yng Nghwm Taf a gofyn pa heriau maen nhw'n ei wynebu.

Rydym wedi gweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf i weld pa ffactorau llwyddiant pwysig allai weithio'n lleol a beth fyddai'n cael yr effaith fwyaf:

- Bod â chyd-ddealltwriaeth o ragnodi cymdeithasol, a sut gallwn ni gydweithio i ddatblygu hyn er mwyn inni gefnogi pobl mewn ffordd fwy cyfannol, a'u hannog i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau eu hunain.
- Cefnogi gwasanaeth cyfeillio yn fwy cynaliadwy fel nad yw'r gwasanaethau y mae pobl eu hangen ac yn eu defnyddio, mewn perygl.
- Datblygu cymorth ac asedau cymunedol, gweithio gyda chymunedau er mwyn bod yn fwy cysylltiedig a chadarn. Hoffem roi cynnig ar ddulliau 'seiliedig ar le' gyda rhai cymunedau fel bod trigolion yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir ar yr adeg gywir.
 - Mae'n cynnwys adeiladu ar, a dysgu o arferion gorau sydd eisoes yn bodoli, fel Welcome to Our Woods a phrosiect 'Reconnect 50+' Safer Merthyr Tydfil, enillydd gwobr Crystal eleni, fel bod cyrff cyhoeddus yn gweithio'n well i helpu grwpiau cymunedol.

Ystyried sut gall gwirfoddoli wneud gwahaniaeth.

- Rydym wedi dechrau datblygu model o wella cyfleoedd gwirfoddoli i'n pobl ifanc, yn gysylltiedig â Bagloriaeth Cymru a Gwobr Dug Caeredin.
- Buom yn cydweithio ag ysgolion a grwpiau lleol er mwyn cynnal ffeiriau gwirfoddoli yn Ysgol Gyfun Treorci a Choleg Merthyr.



Fel thema drawsbynciol, rydym yn gwirio bod ein holl Amcanion Llesiant yn ystyried sut maen nhw'n mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.

Ein Blwyddyn Gyntaf:

Rydym wedi adeiladu seiliau cadarn er mwyn sbarduno camau gweithredu'r dyfodol, gan weithio i greu amgylchedd o feithrin perthynas adeiladol a heriol rhwng ac o fewn sefydliadau.

Roedd hyn yn cynnwys sefydlu tîm cymorth penodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, dangos ymrwymiad gan bartneriaid ac ymroi i weithio mewn ffordd newydd. Roedd y flwyddyn gyntaf yn ymwneud cymaint â sut rydym ni'n gweithio'n wahanol, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, â'r hyn rydym ni'n dechrau ei gyflawni.

Gwir werth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw cyfraniad anuniongyrchol partneriaid at gyflawni dyheadau'r Ddeddf, trwy ddod â chymunedau a chysylltwyr cymdogaethol cyfredol ynghyd a chefnogi ac adeiladu ar y gwaith da sy'n digwydd yn ein cymunedau, yn ogystal â'n rôl uniongyrchol o gyflawni amcanion llesiant.

Sut rydym ni'n defnyddio'r 'pum ffordd o weithio'?



1

HIRDYMOR rydym yn...

- dechrau datblygu proffil agored i niwed er mwyn nodi'r rhai sydd ag anghenion tymor byr, a helpu i feithrin gwydnwch at y dyfodol.
- datblygu protocol rhannu gwybodaeth fel bod y gwasanaeth yn cynnig system fwy cydlynus a bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fo'r angen.



2

ATAL rydym yn...

- mabwysiadu polisi 'dim siwgr wedi'i ychwanegu' ledled ein hadeiladau er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau uchel o ordewdra a phydredd dannedd yng Nghwm Taf. Ar ôl haf 2019, dim ond dŵr, suddion ffrwythau, diodydd pefriog deiet a dewisiadau heb siwgr fydd ar gael.
- hyrwyddo arferion ac ymddygiad iach ymhlith ein gweithlu a thu hwnt.



3

INTEGREIDDIO rydym yn...

- herio'r modd rydym ni'n gweithio fel unigolion ac fel grwpiau.
- ystyried sut gallwn ni fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a buddsoddiadau fel y 'Fargen Ddinesig' a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.



4

CYDWEITHIO rydym yn...

- gweithio ar gamau nesaf yr 'Employability Pledge' fel ymagwedd ar y cyd at brentisiaeth, llwybrau cyflogaeth a hyfforddiant, yn ogystal ag ymchwilio i gynlluniau gwirfoddoli a noddur gan gyflogwyr.
- ystyried sut rydym yn gweithio gyda Byrddau eraill yr ardal, yn enwedig y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.



5

CYNNWYS rydym yn...

- gwella'r modd o sicrhau bod pawb yn cyfrannu at siapio a chynllunio'n ffordd o gydweithio, yn enwedig yn y ddau Barth Cymunedol.
- ceisio rhoi'r defnyddiwr gwasanaethau wrth galon y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yng Nghwm Taf.




Pupils at spring conferences

Mae datblygu fframwaith gwerthuso wrth wraidd hyn oll, er mwyn ei ddefnyddio i fesur y gwahaniaeth rydym ni'n ei wneud, ein dulliau gweithredu, a herio'n hunain i fod yn ddigon uchelgeisiol dros ein cymunedau. Byddwn yn herio'n hunain fwyfwy o ran y gwahaniaethau rydym yn ei wneud a'r canlyniadau yr hoffem eu gweld.

Fel partneriaid, mae gennym ni ein rhaglenni gwaith ein hunain sy'n cyflawni amcanion llesiant, ond trwy'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, maent yn dod ynghyd ac yn adlewyrchu un gwasanaeth cyhoeddus i'n cymunedau. Dyma rai o'r ffyrdd mae'r gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau wedi dod ynghyd yn ein blwyddyn gyntaf:

- Prosiectau glasu yn y parthau cymunedol sydd wedi gweithio i ddod â'r gymuned ynghyd a gwella'r amgylchedd naturiol
- Dechrau datblygu model integredig ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar fel rhan o rôl Cwm Taf fel ardal arloesi 'Plant yn Gyntaf'. Ym mis Hydref 2018, cafodd y Gurnos ymweliad gweinidogol gan Huw Irranca-Davies i weld y gwaith.
- Ymweliadau 'Diogel ac Iach' gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Datblygu Comisiynwyr Ifanc trwy waith ar gamddefnyddio sylweddau. Ar gyfer hyn, fe wnaeth pobl ifanc greu taflen wybodaeth ar gyfer eu cyfoedion a'u cynnwys yn y broses o dendro ar gyfer gwasanaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer yr ardal
- Cynnal dwygyfnhadledd gwanwyn gan gynnwys disgyblion o ysgolion Merthyr a Rhondda Cynon Taf. Dysgon nhw am y nodau llesiant cenedlaethol yn 2018 gyda Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a thema unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn 2019.
- Gweithio gyda grŵp o bobl ifanc i greu eu fersiwn eu hunain wedi'i hanimeiddio o Gynllun Llesiant Cwm Taf.
- Edrych ar ffyrdd o leddfu teimladau o unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Mae gwirfoddoli'n ffordd wych o gwrdd â phobl newydd a dysgu sgiliau newydd. Darparodd 'Welcome Friends' astudiaeth achos ar gyfer cylchlythyr Ionawr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n manylu sut mae Daphne, Carl a Josie wedi elwa ar amser gwirfoddolwyr.



Symud ymlaen

Mae gennym weledigaeth glir ac ymrwymiad partneriaid i symud ymlaen gyda'n gilydd ar ein cynllun. Wedi dweud hynny, rydyn ni'n dal i ddysgu; rydyn ni'n fwrdd newydd sy'n ymdrin â deddf newydd a ffyrdd newydd o weithio.

Nid yw hyn yn hawdd ac rydyn ni'n dysgu gwersi ar hyd y ffordd. Rydyn ni'n gweithio i wella sut gallwn ni weithio gyda'n dinasyddion ac rydyn ni am gael trafodaeth barhaus, ond rydyn ni'n gwybod bod angen inni wella hyn, a gwella'r amrywiaeth o bobl rydyn ni'n eu cynnwys yn y gwaith.

Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi ein hamcanion gan ganolbwyntio ar wella llesiant yng Nghwm Taf. Mae angen inni sicrhau bod yr hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'n preswylwyr, ac yn ystyried newidiadau mewn tueddiadau ac ansicrwydd, fel Brexit, ffin bwrdd iechyd Cwm Taf yn newid i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr a'n hymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. Credwn y bydd y camau rydyn ni'n eu cymryd yn creu'r gwahaniaeth hirdymor mwyaf.

Yn bwysicach oll, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn un corff o blith nifer o rai eraill sy'n gweithio i wella llesiant yng Nghwm Taf. Mae'r partneriaid unigol hefyd yn gweithio yn eu rhinwedd eu hunain yn yr ardaloedd maent yn gyfrifol amdanynt, ac mae amrywiaeth eang o sefydliadau ar lawr gwlad a sefydliadau cymunedol ledled Cwm Taf yn gwneud gwaith anhygoel, yn gwbl seiliedig ar ddiwallu anghenion lleol. Yr hyn rydyn ni am ei wneud yw ymchwilio i sut gallwn ni gefnogi'r gwaith hwn, gweithio gyda'r grwpiau hyn a dileu rhwystrau rhag datblygu gallu cymunedol yn y modd hwn.

Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn ni'n parhau i gyflawni ein cynllun, defnyddio ein sylfaen dystiolaeth a gweithio'n galed i barhau i wella'r ffordd rydyn ni'n cynnwys pobl. Byddwn ni'n adeiladu ar yr asedau a nodwyd yn yr asesiad – fel ein tirwedd unigryw a'n hymdeimlad cryf o gymuned – a'r sylfeini cadarn a grëwyd yn sgil ein blwyddyn gyntaf o weithio. Yn yr ail flwyddyn, rydyn ni'n hyderus y byddwn ni'n newid o ganolbwyntio ar brosesau i fod yn ddewr, gan ymchwilio i ffyrdd newydd a gwahanol o wella llesiant a defnyddio'r ffyrdd o weithio i greu cymunedau ffyniannus o bobl iach sy'n elwa ar economi gref.

Am fwy o wybodaeth am sut gallwch chi gymryd rhan a rhoi eich barn ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ewch i

www.eincwmtaf.cymru

